Ysgoloriaethau Ymchwil (PhD) y Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2021

Astudiaeth feirniadol o addysgeg barddoniaeth Gymraeg (blynyddoedd 7-13)

Prifysgol Bangor – Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd

Mae Ysgol y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Bangor yn cynnig ysgoloriaeth PhD lawn amser am gyfnod o dair blynedd o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd deiliad yr ysgoloriaeth yn llunio astudiaeth feirniadol o addysgeg barddoniaeth Gymraeg ym mlynyddoedd 7-13.

CEFNDIR

Mae hwn yn gyfle heb ei ail i gyflawni gwaith ymchwil pedagogaidd arloesol mewn maes sy'n greiddiol i brofiad pob un disgybl sy'n astudio llenyddiaeth Gymraeg. Bydd y dulliau ymchwil yn gyfuniad o ymchwil traddodiadol a theoretig ynghyd â gwaith maes ymchwiliadol ac arbrofol ymhlith athrawon a disgyblion. Bydd disgwyl i'r deiliad feithrin dealltwriaeth o ddatblygiadau addysgol arwyddocaol yn y gorffennol, e.e. prosiect 'Gorwelion' T. Emrys Parry yn y 1970au, ynghyd ag ymgydnabod â phatrymau ymchwil pedagogaidd rhyngwladol ym maes barddoniaeth. Un o brif nodau'r prosiect fydd ymholi ynghylch dulliau amgen o gyflwyno barddoniaeth i ddisgyblion 11-18 oed. Bydd disgwyl i'r deiliad, felly, gyflawni ymchwil ysgolheigaidd a fydd hefyd wedi ei wreiddio yng nghyd-destun ymarferol yr hyn a allai ddigwydd yn y dosbarth.

Mae Ysgol y Gymraeg Prifysgol Bangor yn gartref i gymuned fywiog o fyfyrwyr ymchwil a bydd modd i'r ymgeisydd llwyddiannus elwa hefyd ar hyfforddiant ymchwil a chefnogaeth a gynigir gan Ysgol Ddoethurol y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Bydd disgwyl i ddeiliaid ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyfrannu at yr addysgu ar raglenni israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg (hyd at 5 awr yr wythnos, neu dim mwy na 60 awr mewn blwyddyn) o fewn eu hysgolion/adrannau academaidd yn ail a thrydedd flwyddyn eu dyfarniad.

Prif gyfarwyddwr y prosiect fydd Yr Athro Peredur Lynch a gallwch gysylltu ag ef am unrhyw wybodaeth ychwanegol: p.i.lynch@bangor.ac.uk

DYDDIAD CAU

Y dyddiad cau ar gyfer yr ysgoloriaeth hon yw 07/06/2021 (gyda chyfweliadau ar 16/06/2021)

Yr amser cau yw 12:00 (canol dydd).

Y CYMORTH ARIANNOL A GYNIGIR

Bydd yr Ysgoloriaeth lawn amser hon yn dechrau ar 1 Hydref 2021 ac yn parhau am gyfnod o dair blynedd. Y mae'n gyfwerth yn ariannol â'r ysgoloriaethau ôl-raddedig a ddyfernir gan y cynghorau ymchwil, ac yn codi'n briodol fesul blwyddyn i adlewyrchu unrhyw gynnydd yng ngwerth ysgoloriaethau'r cynghorau ymchwil. Bydd yn cynnwys y ffioedd safonol i'r sefydliad a grant cynhaliaeth blynyddol (£15,609 yw'r swm ar gyfer 2021/22). Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol o £1000 er mwyn cefnogi gwaith maes, mynychu cynadleddau neu gyfrannu at gostau ymchwil eraill.

CYMWYSTERAU A PHROFIAD

Yn angenrheidiol

- Gradd 1af/ 2.i mewn pwnc perthnasol i'r prosiect ymchwil, a/neu gradd Meistr wedi'i chwblhau'n llwyddiannus
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl
- Gwir ddiddordeb mewn barddoniaeth Gymraeg a chefndir mewn dadansoddi llenyddiaeth
- Y gallu i gyfathrebu'n rhwydd ag eraill ac i gydweithio'n llwyddiannus ag ymarferwyr proffesiynol ym maes addysg
- Y dyfalbarhad sydd ei angen i gwblhau PhD trwy ymchwil o fewn cyfnod yr ysgoloriaeth

Yn ddelfrydol

- Profiad proffesiynol perthnasol yn y sector addysg uwchradd (neu drydyddol).
- Profiad o brosiectau addysgol yn ymwneud â blynyddoedd 7-13.

SUT I YMGEISIO

Gellir ymgeisio yma:

https://www.bangor.ac.uk/cy/study/postgraduate-research/apply

Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio yw 12.00 (canol dydd) 7/6/2021. Ni ellir derbyn unrhyw geisiadau anghyflawn nac unrhyw gais ar ôl yr amser a'r dyddiad hwn.

Dylai'r cais gynnwys y dogfennau a ganlyn:

1. Llythyr cais (dim mwy na dwy ochr A4) wedi ei gyfeirio at Yr Athro Peredur Lynch. Dylech nodi eich rhesymau dros ymgeisio am yr ysgoloriaeth hon a chyfeirio at unrhyw gryfderau/diddordebau academaidd a/neu brofiadau proffesiynol sy'n berthnasol i'r maes ymchwil. Dylai'r llythyr hefyd arddangos dealltwriaeth o'r her a'r hyn sy'n ddisgwyliedig wrth ymgymryd â phrosiect ymchwil PhD o'r natur hwn.

2. Dylech gynnwys DAU dystlythyr i gefnogi eich cais. Eich cyfrifoldeb chwi fydd sicrhau canolwyr addas a chynnwys eu tystlythyrau gyda'r cais.

4. Curriculum Vitae (dim mwy na dwy ochr A4) a fydd hefyd yn cynnwys eich cymwysterau academaidd a/neu broffesiynol.

5. Ffurflen Cyfleoedd Cyfartal wedi ei llenwi.

6. Yn y system ymgeisio ar-lein, dan y tab **Rhaglenni**, dewiswch **'Ysgoloriaethau a Hysbysebwyd gan Prifysgol Bangor ...'**



Yna dewiswch **'Ysgoloriaethau Ymchwil CCC: Astudiaeth feirniadol o addysgeg barddoniaeth Gymraeg (2021)'**, gan wneud yn siŵr eich bod yn ychwanegu enw'r Athro Peredur Lynch i'r blwch 'Cyswllt Academaid/Academic Contact '.

Cliciwch 'Ychwanegu'

This is an advertisement for a PhD Research scholarship in Welsh poetry and pedagogy, for which the ability to speak and write Welsh fluently is essential.